# Cynllun Datblygu Lleol Amnewid Sir Fynwy

## Cytundeb Cyflenwi

### Fel y'i diwygiwyd yn Rhagfyr 2022

## Cynllun Datblygu Lleol Amnewid
## Cyngor Sir Fynwy

# Cytundeb Cyflenwi

## Fel y'i diwygiwyd yn Rhagfyr 2022


**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyngor Sir Fynwy**

Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy NP15 1GA

**Ffôn:** 01633 644429

**E-bost:** Planningpolicy@monmouthshire.gov.uk

# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Amserlen | 7 |
| Cynllun Cynnwys y Gymuned | 12 |

Atodiadau:

| | Tudalen |
|---|---|
| **1.** Rhestr o Gyrff Ymgynghori | 29 |
| **2.** Amserlen ar gyfer y CDLlA | 34 |
| **3.** Asesiad Risg | 36 |
| **4.** Rhestr termau | 42 |

## 1.0 Cyflwyniad

**Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022**

1.1 Cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) Sir Fynwy yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru ar 14eg Mai 2018. Ers hynny, mae yna sawl her wedi bod sydd wedi oedi datblygu'r gwaith o baratoi CDLlA. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi rhagamcanion poblogaeth mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru yn 2018, pandemig Covid-19, gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i'r Strategaeth a Ffefrir yng Ngorffennaf 2021, a'r materion ffosffadau ac ansawdd dŵr yn ardaloedd dalgylch yr Afon Gwy a'r Afon Wysg.

1.2 Mae'r Cyngor yn bwrw ati gyda Strategaeth a Ffefrir newydd sydd yn ymateb i wrthwynebiad Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau ansawdd dŵr sydd heb eu datrys yn nalgylch rhan uchaf Afon Gwy. O ganlyniad, mae angen diwygio'r amserlen Cytundeb Cyflenwi fel sydd wedi ei nodi yn y ddogfen hon.

**Adolygiad o'r CDLl**

1.3 Mae adolygiad llawn o CDLl Sir Fynwy 2011 - 2021 (a fabwysiadwyd 27ain Chwefror 2014) wedi'i gynnal, ac mae ei ganfyddiadau wedi'u nodi yn Adroddiad Adolygu'r CDLl (Mawrth 2018). Mae'r Adroddiad Adolygu yn rhoi trosolwg o'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r broses adolygu CDLl llawn ac yn dilyn hynny yn nodi'r newidiadau posibl sy'n debygol o fod eu hangen o fewn unrhyw CDLl diwygiedig, ar sail dystiolaeth. Mae'n dod i'r casgliad drwy argymell bod y Cyngor yn dechrau paratoi CDLlA yn dilyn y weithdrefn adolygu lawn. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Adolygu terfynol ochr yn ochr â'r Cytundeb Cyflawni Drafft (Mai 2018). Mae'r Cyngor wedi dechrau paratoi'r CDLl Amnewid a fydd yn ymdrin â'r cyfnod Cynllun 2018-33.

1.4 Mae Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy (Chwefror 2014) mabwysiedig yn ymdrin â'r cyfnod 2011-21. Mae'r risgiau sydd yn rhan o'r deddfwriaeth 'dyddiad marw' y CDLl ar gyfer y CDLl mabwysiedig wedi diflannu yn dilyn cyhoeddi llythyr gan y Gweinidog y Medi 2020[1]. Eglurodd hyn na fydd y darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) sydd yn ymwneud gyda 'dyddiadau marw' yn berthnasol i'r CDLl a fabwysiadwyd cyn daeth i Ddeddf i rym (4ydd Ionawr 2016). Golyga hyn bod ein CDLl cyfredol, a fabwysiadwyd yn Chwefror 2014, yn parhau i fod yn Gynllun at ddibenion gwneud penderfyniadau tan fod y CDLlA wedi ei fabwysiadu. Er y gall polisïau yn y CDLl Mabwysiedig gael eu disodli gan bolisi neu dystiolaeth genedlaethol fwy diweddar ar ôl mis Rhagfyr 2021, mae eglurhad y Gweinidog

[1] Llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, Prif Weithredwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol – Y System Gynllunio a Covid-19, 7 Gorffennaf 2020

yn rhoi eglurder y mae mawr ei angen i'r holl randdeiliaid ac yn dileu risg sylweddol o gael gwactod polisi. Fodd bynnag, nid yw'r eglurhad hwn yn newid yr angen dybryd i'r Cyngor wneud cynnydd amserol ar ei CDLlA ac i fabwysiadu'r Cynllun newydd cyn gynted ag y bo'n realistig bosibl er mwyn mynd i'r afael gyda materion allweddol a'n sicrhau bod system sydd yn cael ei arwain gan Gynllun yn ei lle.

**Diben Cytundeb Cyflawni**

1.5 Bydd y CDLlA yn cwmpasu cyfnod 2018-2033. Mae paratoi Cytundeb Cyflawni[2] yn ofyniad allweddol wrth baratoi Cynllun newydd. Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â'r broses o lunio'r Cynllun a'r amser y mae pob rhan o'r broses yn debygol o'i gymryd, yn ogystal â'r adnoddau y bydd y Cyngor yn ymrwymo i neilltuo er mwyn paratoi'r Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r CDLlA. Bydd Arolygydd annibynnol yn archwilio'r CDLlA i brofi a yw'r Cynllun yn gadarn ac wedi'i baratoi yn unol â'i Gytundeb Cyflawni.

1.5 Rhennir y Cytundeb Cyflawni yn ddwy ran allweddol:

- Yr **Amserlen** ar gyfer cynhyrchu'r CDLlA. Mae hyn yn rhoi syniad clir o ba bryd y bydd pob un o wahanol gamau paratoi'r cynllun yn digwydd. Darperir dyddiadau diffiniol hyd at y cam adneuo a'r dyddiadau dangosol ar gyfer camau diweddarach. Bydd dull rheoli prosiect yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'r cynllun ac y caiff ei gyflawni'n brydlon. Mae'r amserlen wedi'i chynnwys yn *Rhan 2* o'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn ac mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r oedi cyn paratoi'r cynllun a nodir uchod.
- Mae **Cynllun Cynnwys y Gymuned** yn amlinellu egwyddorion yr Awdurdod o ran ymgysylltu â'r gymuned; ei ddull o weithredu mewn perthynas â phwy, sut a phryd y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, sut y bydd yn ymateb i sylwadau a sut y bydd y cynrychiolaethau hyn yn llywio camau diweddarach paratoi'r cynllun. Mae hyn wedi'i gynnwys fel *Rhan 3* o'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn.

1.7 Ceir rhestr termau yn Atodiad 4.

[2] Adran 63 (1) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol a Rheoliadau 5 – 10 CDLl (Cymru) *fel y'i diwygir 2015)

**Paratoi'r CDLl Amnewid**

1.8 Wrth baratoi'r CDLlA bydd y Cyngor yn anelu at gyflawni'r canlyniadau allweddol canlynol[3]:

- Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o ansawdd sy'n seiliedig ar y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, i gyd-fynd â pholisi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'u hintegreiddio ag Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC), gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.
- Bod yn seiliedig ar, ac yn ategu, cyfranogiad cynnar, effeithiol ac ystyrlon y gymuned er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar strategaeth, polisïau a chynigion gofodol y CDLlA.
- Bod yn nodedig drwy gael cynlluniau sy'n nodi'n glir sut y bydd Sir Fynwy yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
- Bod yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio Amcanestyniadau Hinsawdd diweddaraf y DU, data asesu perygl llifogydd a bregusrwydd) a chefnogi'r newid i gymdeithas sy'n carbon isel yn unol â'r targedau a chyllidebau lleihau carbon diweddaraf fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Byddwn yn cadw at egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Cyflawni'r hyn a fwriedir drwy gynlluniau ymarferol a hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill yn y farchnad.
- Bod yn rhagweithiol ac yn ymatebol, yn gyfredol ac yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer newid.

1.9 Bydd y CDLlA yn cael ei baratoi mewn perthynas ag ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Llesiant Lleol yn arbennig o bwysig ar lefel leol. Mae'r Cynllun yn ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Fynwy ac mae ganddo gysylltiadau clir â'r CDLlA lle mae'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.

[3] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhifyn3, Mawrth 2020)

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS)**

1.10 Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig[4], (ACI) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol[5] (AAS), yn un o ofynion statudol paratoi CDLl er mwyn asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Defnyddir proses yr AC/AAS i gwrdd â gofynion a dyletswyddau ar gyfer y Gwerthusiad Cynaliadwyedd a’r Asesiad Amgylcheddol Strategol, Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o’r Effaith ar Iechyd, Asesiad o’r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol er mwyn sicrhau bod y polisïau yn y CDLlA yn adlewyrchu egwyddorion cynaliadwy ac yn ystyried effeithiau sylweddol y Cynllun ar yr amgylchedd.

1.11 Bydd y Cyngor yn parhau i fabwysiadu dull integredig o ran ymdrin ag AC/AAS y CDLlA, gan sicrhau bod y Cynllun yn gyson yn fewnol, gyda materion economaidd a chymdeithasol yn cael eu hystyried ochr yn ochr â materion eraill. Bydd y broses arfarnu yn cydredeg â'r broses o lunio'r cynllun ac yn rhan ailadroddol o baratoi'r cynllun.

1.12 Bydd yr ACI, sy'n ymgorffori'r AAS, yn cael ei gynnal fel a ganlyn

- Mae Adroddiad Cwmpasu ACI yn nodi'r materion cynaliadwyedd presennol yn ardal Sir Fynwy ac yn darparu gwybodaeth sylfaenol ynghyd ag adolygiad o gynlluniau, polisïau, rhaglenni a strategaethau. Bydd dangosyddion ac amcanion presennol yr AC yn cael eu diwygio a'u diweddaru yn ôl yr angen. Bydd Fframwaith Cynaliadwyedd diwygiedig yn cael ei gynhyrchu.
- Mae Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol (AGCIC) yn rhagweld ac yn gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLl, y strategaeth ofodol a pholisïau strategol ar yr amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd fel y nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu. Bydd yr AGCIC yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Strategaeth a Ffafrir a'i ddiweddaru pan gaiff y Cynllun Adneuo ei baratoi.
- Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Terfynol (AGCIT) Bydd hyn yn dwyn ynghyd holl elfennau'r AAS ac yn ystyried argymhellion rhwymol yr Arolygydd Cynllunio. Cyhoeddir yr AGCIT ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd.

[4] Adran 62 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

[5] Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

- Bydd Datganiad Mabwysiadu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cael ei gyhoeddi i egluro sut yr ystyriwyd yr ystyriaethau cynaliadwyedd a'r Asesiad Cynaliadwyedd wrth gynhyrchu'r CDLlA.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)**

1.13 Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd[6] yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau defnydd tir, gan gynnwys CDLlau, fod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ychwanegol lle ceir safleoedd o arwyddocâd Ewropeaidd at ddibenion cadwraeth natur. Mae Sir Fynwy yn cynnwys ystod o safleoedd cadwraeth natur ryngwladol ddynodedig fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a safle RAMSAR. Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag ACI/AAS er mwyn sicrhau dull asesu integredig. Y bwriadu yw i'r broses redeg unwaith eto ar yr un pryd â'r broses o lunio'r Cynllun a ffurfio rhan ailadroddol o baratoi'r Cynllun.

1.14 Mae dau gam i'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd

- Sgrinio
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**Asesiadau ar Sail Tystiolaeth**

1.15 Fel yr amlinellwyd ym mhob un o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a gyhoeddwyd, a'r Adroddiad Adolygu, mae angen diweddaru a chynnal asesiadau sail dystiolaeth amrywiol drwy gydol y broses o baratoi'r CDLlA a fydd yn cynnwys

- Asesiadau o anghenion mewn perthynas â phoblogaeth, tai, cyflogaeth a manwerthu
- Dyraniadau tir ychwanegol i fodloni'r strategaeth twf a ddewiswyd ar gyfer cyfnod newydd y Cynllun
- Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy
- Diweddariad Asesiad Marchnad Tai Lleol
- Asesiad Aneddiadau Cynaliadwy
- Adolygiad Tir Cyflogaeth ac Astudiaeth Cyflogaeth Ranbarthol
- Arolwg Mannau Agored Amwynderau
- Arolwg o Ffiniau Aneddiadau
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy
- Cynllun Seilwaith

[6] 92/43/EC

- Adolygiad Lletemau Gwyrdd
- Diweddariad Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd

Nid yw hon yn rhestr ddiffiniol a gall gofynion diweddaru sail dystiolaeth ychwanegol dod i'r amlwg wrth i'r diwygiad i'r Cynllun fynd yn ei flaen

**Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

1.16 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod y Ddeddf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â saith nod llesiant ac mae hefyd yn nodi pum ffordd o weithio. Mae'r saith nod llesiant yn ymwneud â’r canlynol; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy’n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd- eang. Y pum ffordd o weithio yw: hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. O ystyried bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor sylfaenol graidd y CDLl (a'r AAS), ceir cysylltiadau clir rhwng y CDLl â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel un o ofynion y Ddeddf rhaid llunio Cynllun Llesiant Lleol, sydd wrthi'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Bydd y cynllun hwn yn edrych ar les amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir a bydd ganddynt gysylltiadau clir â'r CDLlA. Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a’r Cynllun Llesiant Lleol eu hystyried yn llawn drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLlA, a fydd yn dilyn y pum ffordd o weithio.

**Profion Cadernid**

1.17 Mae 'cadernid' yn rhan annatod o'r system CDLlau ac mae'n egwyddor bwysig ar gyfer dangos a yw'r CDLl yn dangos barn dda ac a ellir ymddiried ynddi. Os gwelir nad yw'r CDLlA yn gadarn, yna gallai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau angenrheidiol er mwyn unioni'r sefyllfa. Gall hyn olygu dychwelyd i gamau cynnar iawn paratoi'r cynllun, gan achosi cryn oedi wrth baratoi'r Cynllun.

1.18 Rhaid i'r Cyngor gyflwyno'r CDLlA i Lywodraeth Cymru i'w archwilio. Penodir Arolygydd annibynnol gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr archwiliad hwn i benderfynu a yw'r Cynllun yn sylfaenol gadarn. Bydd yr Arolygydd yn asesu a yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi'i wneud yn unol â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoliadol, ac yn cydymffurfio â'r Cynllun Cynnwys y Gymuned. Rhaid i'r Arolygydd hefyd benderfynu a yw'r Cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid[7]

- **Prawf 1 – Ydy'r Cynllun yn ffitio?** (h.y. a yw'n glir bod y CDLlA yn

[7] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2020)

cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

- **Prawf 2 – A yw'r Cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r Cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal ar sail y dystiolaeth?)
- **Prawf 3 – A fydd y Cynllun yn cyflawni?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

1.19 Bydd casgliadau'r Arolygydd yn rhwymol ac, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau sy'n ofynnol gan yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLlA.

## 2.0 Amserlen

2.1 Sefydlodd y Cyngor amserlen yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol (Mai 2018) a oedd yn crynhoi'r cyfnodau allweddol wrth baratoi'r Cynllun (Tabl 1), a ystyriwyd, er ei bod yn heriol, yn darparu amserlen realistig ar gyfer paratoi'r CDLlA gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Wrth baratoi'r amserlen, ystyriwyd disgwyliad Llywodraeth Cymru y gellir paratoi Cynllun newydd mewn llawer llai na 4 blynedd, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael a graddau'r newidiadau gofynnol (darparodd Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9, Tachwedd 2016 y canllawiau perthnasol bryd hynny). At hynny, roedd yn ystyried y ffaith bod y CDLl presennol i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021 ac roedd angen dybryd i gynnal cwmpas y Cynllun. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae llythyr Gweinidogol diweddar wedi cadarnhau na fydd deddfwriaeth dyddiad diwedd y CDLl yn berthnasol i'r CDLlau hynny a fabwysiadwyd cyn 4ydd Ionawr 2016 sy'n golygu y bydd y CDLl Mabwysiedig yn parhau i fod mewn grym hyd nes y caiff y CDLlA ei fabwysiadu.

2.2 Dechreuodd y gwaith yn gyflym ar y CDLlA ar ôl cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol ym mis Mai 2018, ond ers hynny, mae sawl her sydd wedi effeithio ar gynnydd y CDLlA. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi rhagamcanion poblogaeth mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru yn 2018, pandemig Covid-19, gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i'r Strategaeth a Ffefrir yng Mehefin 2021, a'r materion ffosffadau a phroblemau ffosffadau ac ansawdd dŵr yn ardaloedd dalgylch yr Afon Gwy a'r Afon Wysg.

2.3 Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen gyda'r Strategaeth a Ffefrir newydd sydd yn ymateb i wrthwynebiad Llywodraeth Cymru a'r problemau ansawdd dŵr yn rhan uchaf dalgylch yr Afon Gwy sydd heb eu datrys. O ganlyniad, mae angen datblygu'r amserlen Cytundeb Cyflenwi fel sydd wedi ei nodi yn y ddogfen hon. Mae'r amserlen CDLlA i'w gweld yn Nhabl 1 ac Atodiad 2.

2.4 Rhennir Tabl 1 yn gamau diffiniol a dangosol:

- **Camau Diffiniol –** Mae'r rhan hon o'r amserlen yn darparu gwybodaeth hyd at y cam Adneuo statudol, ac yn ei gynnwys. Mae cynnydd y Cynllun dros y cyfnod hwn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor (yn amodol ar risgiau allanol fel y pandemig presennol) ac felly ystyrir bod y dyddiadau targed diwygiedig, tra'n parhau i fod yn heriol, yn realistig a gwneir pob ymdrech i gadw at y dyddiadau hyn.
- **Camau Dangosol –** Mae'r rhan hon o'r amserlen yn darparu ar gyfer camau paratoi'r Cynllun y tu hwnt i'r cam Adneuo statudol. Mae'r camau hyn yn gynyddol ddibynnol ar ystod eang o ffactorau allanol (e.e. nifer y sylwadau a

dderbyniwyd, nifer y sesiynau gwrandawiadau archwilio, yr amser a gymerir i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd), y mae gan y Cyngor lawer llai o reolaeth drostynt. Caiff y dyddiadau hynny eu hailystyried ar ôl cyrraedd y cam Adneuo, pan fydd amseriadau pendant ar gyfer y camau sy'n weddill yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cytuno a'u cyhoeddi.

**Tabl 1 - Cyfnodau Allweddol wrth Baratoi'r Cynllun Amnewid (Diwygiwyd Rhagfyr 2022)**

| **Cyfnodau Allweddol** | **Amserlen** |
|---|---|
| Diffiniol | |
| Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (4) (Rhagfyr 2020) | Rhagfyr 2022 |
| | Cyngor Llawn – Rhagfyr 2022<br>Cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cytundeb – v 2022 |
| Cyfranogiad Cyn Adneuo | Mehefin 2022 - Tachwedd 2022 |
| | Adroddiad i'r Cyngor ar y Strategaeth a Ffefrir drafft – Rhagfyr 2022 |
| Strategaeth a Ffafrir (Cyn-adneuo) Ymgynghoriad | Rhagfyr 2022 |
| | Strategaeth a Ffefrir – Ymgynghoriad statudol 8 wythnos (Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023)<br>Ymgynghoriad answyddogol ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023)<br>Adroddiad i'r Cyngor gyda chrynodeb o'r Adroddiad Ymgynghori er mwyn cymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir (Gwanwyn 2023) |
| Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo Statudol | Ebrill-Mai 2024 |
| | Adroddiad i'r Cyngor ar y Cynllun Adneuo drafft – Mawrth 2024<br>Cynllun Adneuo - ymgynghoriad statudol 6 wythnos<br>Dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi adroddiad ymgynghori– Haf 2024<br>Adroddiad i'r Cyngor ar newidiadau â ffocws, a chyflwyno'r Cynllun Adneuo i Lywodraeth Cymru – Hydref 2024 |
| **Cyfnodau Allweddol** | **Amserlen** |
| Dangosol | |
| Cyflwyno'r CDLl i Lywodraeth Cymru | Hydref 2024 |
| Archwiliad Annibynnol | Hwyr 2024/yn gynnra 2025 |
| Adroddiad yr Arolygydd | Mehefin 2025 |
| Mabwysiadu | Gorffennaf 2025 (rhaid ei fabwysiadu o fewn 8 wythnos i dderbyn adroddiad rhwymol yr Arolygydd) |

2.5 Ceir cynllun prosiect manwl diwygiedig sy'n amlinellu'r amserlen ar gyfer pob un o gamau paratoi'r Cynllun yn Atodiad 2.

**Adnoddau**

2.6 Bydd y Pennaeth Gwneud Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd a'r Pennaeth Cynllunio yn gyfrifol am gyflawni'r CDLlA yn gyffredinol, gyda'r Rheolwr Polisi Cynllunio yn gyfrifol am reoli'r prosiect o ddydd i ddydd. Bydd y Tîm Polisi Cynllunio yn arwain y gwaith o baratoi a chyflawni'r CDLlA, gydag ymgysylltu ag Aelodau ac adroddiadau gwleidyddol ar adegau priodol. Nodir yr adnoddau staff presennol yn Nhabl 2 isod, bydd tua 80% o amser swyddogion yn cael ei neilltuo i'r CDLlA i gyfrif am gyfranogiad o ddydd i ddydd mewn cyswllt â chydweithwyr mewn rheoli datblygu a hefyd i gyfrif am weithio rhanbarthol. Bydd y Pennaeth Gwneud Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd a'r Pennaeth Cynllunio yn neilltuo amser ychwanegol i sicrhau bod y CDLlA yn cael ei ddarparu'n effeithlon. Bydd hefyd angen galw ar adnoddau staff o adrannau mewnol eraill i helpu i gynnal diweddariadau/asesiadau sail dystiolaeth amrywiol. Mae hyn yn debygol o gynnwys cymorth swyddogion o'r adrannau canlynol: Rheoli Datblygu, Treftadaeth, Tai, Priffyrdd, Busnes a Menter, Seilwaith Gwyrdd, Addysg, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Tabl 2 – Adnoddau Staff Polisi Cynllunio**

| Teitl Swydd y Swyddog | Nifer y swyddi |
|---|---|
| Rheolwr Polisi Cynllunio | 1 |
| Prif Swyddog Polisi Cynllunio | 1 |
| Uwch Swyddog Polisi Cynllunio | 3* |
| Swyddog Ymchwil Polisi Cynllunio | 1 |

*Mae un deiliad swydd yn ymddeol yn Rhagfyr 2022 a bydd y swydd hon yn cael ei dileu

2.7 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwasanaethau arbenigol proffesiynol ychwanegol er mwyn symud ymlaen a sefydlu sail dystiolaeth gadarn i lywio'r CDLlA. Er y rhagwelir y bydd cryn dipyn o waith sail dystiolaeth yn cael ei wneud gan swyddogion Cyngor Sir Fynwy, Polisi Cynllunio yn bennaf, bydd angen defnyddio ymgynghorwyr allanol, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau technegol/arbenigol iawn o'r sail dystiolaeth. Sicrhawyd adnoddau ariannol yn unol â hynny.

2.8 Paratowyd y Cytundeb Cyflawni ar sail CDLlA Sir Fynwy yn unig. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail ranbarthol a bydd cydweithio ag awdurdodau cyfagos yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn paratoi'r CDLlA, yn enwedig o ran sail dystiolaeth ar y cyd, lle y bo'n briodol. Mae Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru wedi

datblygu cyfres o fethodolegau y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol ar gyfer meysydd pwnc allweddol, ac mae'n parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau sail dystiolaeth gyson ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Yn ogystal, mae Cynghorau Sir Fynwy, Torfaen, Blaenau Gwent, Casnewydd a Chaerffili wedi caffael nifer o astudiaethau sail dystiolaeth ar y cyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n cymdogion yn Lloegr wrth iddynt ddatblygu eu Cynlluniau Datblygu.

2.9 Mae cyllideb ddigonol ar gael i ddatblygu'r CDLlA i'w fabwysiadu o fewn yr amserlen arfaethedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â phob elfen o baratoi'r CDLlA a'r Archwiliad Annibynnol

**Rheoli a Dadansoddi Risg**

2.10 Er yr ystyriwyd bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer paratoi'r CDLlA yn realistig, cydnabuwyd y byddai hefyd yn heriol. Cafodd ei gydnabod bod nifer o ffactorau a allai arwain at baratoad y Cynllun yn gwyro oddi wrth yr amserlen arfaethedig. Roedd yr amserlen wreiddiol yn caniatáu hyblygrwydd drwy rywfaint o oddefiad o hyd at 3 mis o oedi, cyn bod angen diwygio'r Cytundeb Cyflawni'n ffurfiol. Mae Atodiad 3 yn nodi asesiad risg gan gynnwys nifer o faterion posibl a allai achosi anawsterau o ran cadw at yr amserlen arfaethedig, ynghyd â dull arfaethedig y Cyngor o'u rheoli.

2.11 Mae'r oedi anochel dilynol i broses baratoi'r Cynllun, a gafwyd o ganlyniad i'r heriau niferus a nodwyd uchod a'r penderfyniad i lunio Strategaeth a Ffefrir newydd, mae hyn wedi golygu bod angen diwygio amserlen y CDLlA ymhellach, sydd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu amserlen realistig ar gyfer camau allweddol pellach o broses y CDLlA. Mae'r amserlen ddiwygiedig yn nodi bod y CDLlA yn cael ei fabwysiadu yn Haf 2025 ac fe'i nodir yn Atodiad 2.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

2.12 Bydd y CDLlA yn cynnwys digon o bolisïau i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae gan CCA rôl gefnogol bwysig o ran darparu canllawiau manylach neu benodol i safleoedd ar y ffordd y caiff polisïau'r CDLlA eu cymhwyso. Er nad yw CCA yn rhan o Gynllun Datblygu, dylai ddeillio o'r CDLl perthnasol a bod yn gyson ag ef. Dylid croesgyfeirio'r CCA yn glir hefyd at y polisïau a'r cynigion y mae'n eu hategu.

2.13 Ers mabwysiadu'r CDLl Mabwysiedig presennol, mae cyfanswm o naw dogfen Canllaw Cynllunio Atodol ac un Nodyn Cyngor Cynllunio wedi'u paratoi a'u mabwysiadu i gefnogi polisïau presennol y CDLl. Mae'r CCA yn ymdrin â'r meysydd pwnc canlynol:

- Seilwaith Gwyrdd, Ebrill 2015
- CCA Cyfarwyddyd Dylunio Addasu Adeiladau Amaethyddol, Ebrill 2015
- CCA Polisïau CDLl H5 a H6 Anheddau Amnewid yng Nghefn Gwlad Agored ac Ymestyn Anheddau Gwledig, Ebrill 2015
- CCA Tai Fforddiadwy, Gorffennaf 2019
- CCA Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni, Mawrth 2016
- CCA Prif Ffryntiadau Siopa, Ebrill 2016
- CCA Llety Twristiaeth Gynaliadwy, Tachwedd 2017
- CCA Addasiadau Gwledig i Ddefnydd Preswyl neu Dwristiaeth, Tachwedd 2017
- CCA Datblygu Mewnlenwi, Tachwedd 2019
- Nodyn Cyngor Cynllunio – Archaeoleg, Awst 2020
- Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth (18 gwerthusiad wedi ei gymeradwyo fel Canllaw Cynllunio Atodol)

2.14 Rhagwelir y bydd y pynciau CCA a restrir uchod yn parhau i fod yn angenrheidiol ac yn berthnasol, ac felly byddant yn cael eu dwyn ymlaen gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol i gefnogi'r CDLlA, a/neu'r sail dystiolaeth wedi'i diweddaru

2.15 Er enghraifft, cydnabyddir bod profion hyfywedd wedi'u diweddaru yn hanfodol i lywio'r CDLlA, a allai arwain at newidiadau i bolisi sy'n bodoli eisoes, yn enwedig tai fforddiadwy. Yn unol â hynny, mae'n debygol y bydd angen diwygio'r CCA Tai Fforddiadwy i adlewyrchu newidiadau o'r fath. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddiwygio ochr yn ochr â pharatoi'r CDLlA. Dylid nodi serch hynny na ellir mabwysiadu CCA i'r CDLlA yn ffurfiol tan ar ôl i Adroddiad yr Arolygydd ddod i law a'i bod yn amlwg nad oes unrhyw newidiadau i'r dull polisi a nodir yn y Cynllun Amnewid. Ni ragwelir y bydd unrhyw CCA newydd/ychwanegol yn cael eu paratoi neu ymgynghori arnynt ochr yn ochr â'r CDLlA, yn bennaf oherwydd yr amserlenni heriol.

**Monitro ac Adolygu**

2.16 Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro ac adolygu cynnydd y CDLlA yn rheolaidd yn erbyn gofynion y Cytundeb Cyflawni, er mwyn sicrhau y glynir wrth yr amserlen a bod yr ymgysylltu â'r cyhoedd fel y'i nodir yn y CCG yn cael ei fodloni. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.10 mae'r amserlen yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd, fodd bynnag bydd angen i'r Cyngor gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r CC cyn derbyn cytundeb Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd angen diwygio'r CC os yw'r amgylchiadau canlynol, sydd y tu hwnt i reolaeth yr ACLl, yn digwydd wrth baratoi'r CDLl diwygiedig:

- Newid sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i baratoi'r CDLlA.
- Mae paratoi'r CDLlA y tu ôl i'r amserlen o fwy na 3 mis ar gam allweddol.

- Newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y DU neu Gymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar broses baratoi'r CDLlA.
- Unrhyw newid arall mewn amgylchiadau a fydd yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r CDLlA yn unol â'r CC.
- Newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys y Gymuned

2.17 O ystyried yr oedi anochel a gafwyd yn ystod proses baratoi'r Cynllun hyd yma (fel y nodir uchod), mae amserlen y Cytundeb Cyflawni wedi'i diwygio ymhellach er mwyn adlewyrchu amserlen fwy realistig ar gyfer camau allweddol proses y CDLlA yn y dyfodol.

2.18 Bydd amserlen wedi'i diweddaru yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y cam Adneuo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd o'r amserlenni ar gyfer y camau sy'n weddill (h.y. disodli camau dangosol â chamau diffiniol). Bydd yr amserlen ddangosol yn cael ei hailddiffinio o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod Adneuo ffurfiol a'r chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cytuno.

.

## 3.0 Cynllun Cynnwys y Gymuned

3.1 Mae'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid yn rhagweithiol wrth baratoi'r CDLlA. Er mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am gynnwys y CDLlA yn y pen draw, un o amcanion y system CDLl yw bod cynhyrchu'r Cynllun yn seiliedig ar gyfranogiad effeithiol gan y gymuned er mwyn gallu ystyried amrywiaeth o safbwyntiau fel rhan o broses o greu consensws eang ar strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Mae'r pum ffordd o weithio a ragnodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn rhan annatod o'r CCG, sef hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal. Mae'r CCG yn disgrifio'r ffyrdd y gall y gymuned ddylanwadu ar y CDLlA ar wahanol gamau proses paratoi'r Cynllun.

3.2 Yn sgil y pandemig diweddar, mae'r Cyngor wedi adolygu'r opsiynau cynnwys digidol ar gyfer darparu gwybodaeth i'n cymunedau a rhanddeiliaid a'n rhoi'r gallu iddynt ymgysylltu gyda'r ymgynghoriad CDLlD mewn modd rhithiwr. Mae manylion pellach ar gael isod.

3.3 Diben craidd Cyngor Sir Fynwy yw dod yn sir carbon sero net, sydd yn cefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau[8] ac mae hyn yn gysylltiedig yn gynhenid â chynllunio defnydd tir ac felly mae'n allweddol i gyflawni'r CDLlA. Yn unol â hynny, mae'r CCG yn seiliedig ar bum gwerth Cyngor Sir Fynwy; bod yn agored, tegwch, hyblygrwydd, gwaith tîm a charedigrwydd.

***Bod yn agored***. *Mae pobl yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud wrthym beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd amser i gael yr ateb byddwn yn egluro pam; os na allwn ateb ar unwaith, byddwn yn ceisio eich cysylltu â'r bobl sy'n gallu helpu – mae meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.*

***Tegwch.*** *Rydym yn darparu cyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn helpu i egluro pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn bob amser sicrhau bod pawb yn hapus, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac egluro pam y gwnaethom yr hyn a wnaethom.*

---

[8] Mae Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022 yn amlinellu diben, egwyddorion a blaenoriaethau craidd y Cyngor

***Hyblygrwydd.*** *Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i gofleidio ffyrdd newydd o weithio.*

***Gwaith tîm.*** *Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel 'atgyweiriwyr' neu ddatryswyr problemau, ac fe wnawn y gorau o'r syniadau, yr asedau a'r adnoddau sydd ar gael er mwyn gwneud yn sicr y gwnawn y pethau sy'n effeithio'n fwyaf cadarnhaol ar ein pobl a'n sir.*

***Caredigrwydd:*** *Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda hwy gan roi pwysigrwydd ein perthynas a'r cysylltiadau sydd gennym ag eraill wrth galon ein holl ryngweithio.*

3.4 Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd wedi ymrwymo i sicrhau y caiff y deg egwyddor genedlaethol, ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, eu defnyddio. Ymgysylltu â'r cyhoedd wrth baratoi'r Bydd CDLlA yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau a nodir yn y CCG. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid cynllunio ymgysylltiad i wneud gwahaniaeth. Gellir nodi'r prif amcanion ar gyfer cynnwys y gymuned ym mhroses baratoi'r CDLlA fel

- Cynnwys pobl cyn gynted â phosibl, mewn pryd i lunio gwaith paratoi'r Cynllun
- Cynnal yr ymgynghoriad hwnnw cyn gwneud penderfyniadau, ac y gwneir penderfyniadau o'r fath mewn modd agored a thryloyw
- Darparu proses ymgynghori hygyrch ac addasu hynny yn ôl yr angen, i gyfrif am anghenion unigol
- Annog a galluogi pawb gyda'r cyfle i gymryd rhan, os ydynt yn dewis
- Mabwysiadu dulliau amgen i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf
- Defnyddio gwybodaeth leol i wella'r broses o wneud penderfyniadau a helpu i weithredu penderfyniadau'n realistig
- Bod y system gynllunio yn helpu i weithredu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal
- Ceisio consensws a chryfhau cyfranogiad y gymuned
- Ymgysylltu â sbectrwm mor llawn â phosibl o'r gymuned mewn materion strategol
- Darparu deialog ddwy ffordd drwy ymateb i sylwadau a dderbyniwyd a chyhoeddi ymatebion ar gamau ymgynghori ffurfiol (Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo) mewn adroddiad ar ymgynghoriad.

**Y Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog**

3.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i'w gwneud yn haws i bobl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer 2022-2027; caiff gofynion y strategaeth gorfforaethol a Safonau'r Gymraeg eu cynnal ar bob cam o'r CDLlA. Caiff ymgysylltu dwyieithog ei wneud yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Pan dderbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a bod angen ateb, anfonir hwn yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a dogfennau Hawdd eu Darllen yn ddwyieithog. Anfonir gohebiaeth CDLlA at randdeiliaid ar gronfa ddata'r CDLlA yn eu dewis iaith.
- Bydd unrhyw dudalennau ar wefan y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid a'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir ar Twitter yn ddwyieithog.
- Bydd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fydd cais wedi'i wneud o flaen llaw. Mae angen ein hysbysu o flaen llaw er mwyn i ni ddarparu gwasanaeth cyfieithu.
- Gellir sicrhau bod dogfennau drafft y CDLlA ar gael yn Gymraeg os gofynnir amdanynt. Bydd y CDLlA Mabwysiedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Sut y byddwn yn eich cynnwys chi?**

3.6 Rydym yn ceisio rhoi cyhoeddusrwydd i broses y CDLlA ar bob cam a chyrraedd cymaint o'r gymuned â phosibl, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill, er mwyn cynghori pobl am y CDLlA a sut y gallant gymryd rhan. Gwneir hyn drwy'r canlynol:

- Cyswllt uniongyrchol ag ymgyngoreion statudol a'r rhanddeiliaid hynny sydd wedi eu cynnwys ar gronfa ddata CDLlA (1000+ a mwy o gysylltiadau) (mae ffafriaeth o ran cyswllt ac iaith wedi eu dynodi gan randdeiliaid drwy'r ymgynghoriad).
- Trwy ddefnyddio **Twitter**, drwy ddefnyddio'r cyfrif @MonmouthshireCC corfforaethol a'r cyfrif @MCCPlanning.
- Drwy **Facebook** ar dudalen Cyngor Sir Fynwy.
- Ymgysylltu ag Aelodau drwy weithdai penodol, sesiynau galw heibio i Aelodau ac mewn adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.
- Ymgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned
- Bydd holl wybodaeth a dogfennau'r CDLlA ar gael ar wefan y Cyngor, a fydd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

- Gosod dogfennau ym mhencadlys, llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol y Cyngor lle bo hynny'n bosibl[9].
- Datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol, lle bo hynny'n briodol.
- Cynhyrchu dogfennau cryno Hawdd eu Darllen ar gyfer cyfnodau allweddol proses y CDLlA.
- Arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd, sesiynau ymgysylltu a chyfarfodydd mewn lleoliadau hygyrch a niwtral.
- Ymgynghori ac ymgysylltu rhithwir drwy gyfrwng technoleg
- Bydd hysbysiadau safle yn cael eu harddangos ynghylch dynodiadau tir arfaethedig yn ystod y cam Adneuo a bydd llythyron yn cael eu hanfon at eiddo cyfagos (ac eithrio Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd, gan fod y rhain yn ymwneud â chyflwyniadau i'w hystyried yn hytrach na chynigion)

**Pwy fyddwn ni'n eu cynnwys?**

**Unigolion sydd wedi cofrestru diddordeb drwy Gronfa Ddata'r CDLlA**

3.7 Mae cronfa ddata wedi'i chynnal i gynnwys aelodau o'r cyhoedd, pobl sydd â diddordeb ag unrhyw sefydliadau unigol sydd wedi gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf ar bob cam o broses y CDLlA. Prif ddiben y gronfa ddata hon yw caniatáu i'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar restr Llywodraeth Cymru o ymgyngoreion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol i'w cynnwys a'i hysbysu drwy gydol proses y CDLlA. Gall unrhyw un ofyn i gael eu manylion wedi'u cynnwys ar y gronfa ddata. Bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar unrhyw gam o broses y CDLlA yn cael eu hychwanegu'n awtomatig at y gronfa ddata er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, a chaniatáu iddynt gael digon o wybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan yn ddiweddarach. Dylid nodi bod y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) wedi dod i rym ym mis Mai 2018. Drwy roi sylwadau ar y CDLlA, mae unigolion a rhanddeiliaid yn rhoi eu caniatâd i'w manylion gael eu cadw gan y Cyngor drwy gydol proses y CDLlA ac am gyfnod o 6 mlynedd ar ôl ei fabwysiadu.

3.8 Os hoffech i'ch manylion gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r CDLlA, cysylltwch â'r Tîm Polisi Cynllunio dros e-bost, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig gan ddefnyddio'r manylion cyswllt fel y nodir ym mharagraff 3.29.

**Cynghorwyr Sir**

---

[9] Os bydd rhai o'r lleoliadau hyn ar gau dros dro yn ystod cyfnod ymgynghori, fel y profwyd yn ystod y pandemig, byddwn yn ymdrechu i nodi allfeydd amgen a chyfleu hyn i'r holl randdeiliaid drwy'r dulliau a nodir yma.

3.9 Cydnabyddir bod cynnwys Aelodau Cyngor Sir Fynwy drwy gydol y CDLlA, yn allweddol bwysig. Mae gan aelodau swyddogaeth unigryw gan eu bod nid yn unig yn cynrychioli'r cymunedau yn eu ward unigol, maent hefyd yn cynrychioli budd y cyhoedd ac maent yn ymwneud â phenderfyniadau er budd ehangach y Sir yn ei chyfanrwydd. Yn unol â hynny, bydd Aelodau'n chwarae rhan hanfodol ym mhroses y CDLlA drwy ddarparu gwybodaeth i drigolion lleol, rhoi gwybod i ni am faterion/cyfleoedd yn eu hardal leol a gwneud penderfyniadau'n fwy sylfaenol ar faterion sy'n effeithio ar ardal Sir Fynwy yn ei chyfanrwydd.

3.10 Yr Aelod Cabinet dros Economi Gynaliadwy, y Dirprwy Arweinydd sy'n gyfrifol am bolisi Cynllunio, gan gynnwys y CDLlA. Mae cysylltu â'r Aelod Cabinet a'r holl Aelodau eraill yn hanfodol drwy gydol y broses. O ganlyniad felly, caiff pob gweithdy Aelodau[14] eu cynnal yn ôl yr angen, yn enwedig ar gamau allweddol y CDLlA, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i; yr Opsiynau Twf a Gofodol, y Strategaeth a Ffafrir, yr CDLlA Adneuo ac ar adeg Mabwysiadu. Cynhelir gweithdai Aelodau pwnc-benodol hefyd drwy gydol proses baratoi'r Cynllun, bydd yr Aelodau'n cael gwybodaeth lawn drwy gydol y broses ac yn cael eu hysbysu cyn pob cam cyfranogi/ymgynghori.

**Cynghorau Tref a Chymuned**

3.11 Mae Cynghorau Tref a Chymunedol hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ledaenu gwybodaeth i'r trigolion yn eu hardal ar faterion o bwysigrwydd lleol a byddant yn gyswllt allweddol â chymunedau ar draws Sir Fynwy. Ymgynghorir â Chynghorau Tref a Chymunedol ar bob cam o'r broses CDLlA a thrwy eu dulliau cyfathrebu unigol yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r CDLlA i gymunedau lleol. Mae ganddynt hefyd y gallu i ddarparu'r wybodaeth leol ddiweddaraf, barn ar unrhyw gynigion yn eu hardaloedd ac yn bwysicach fyth yn gallu rhoi manylion unrhyw ddyheadau sy'n seiliedig ar ddefnydd tir sydd ganddynt ar gyfer eu cymuned.

**Grwpiau Partneriaeth**

3.12 Ystyrir bod grwpiau partneriaeth presennol yn ffordd bwysig o ymgysylltu â'r gymuned wrth baratoi'r CDLlA, yn enwedig yng nghamau cynnar cyfranogiad cyhoeddus pan fo trafodaeth strwythuredig yn ddymunol.

3.13 Bydd cysylltu â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy a phartneriaid yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod y CDLlA yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant Gwent. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda Thîm Datblygu Cymunedol Cyngor sy'n gweithredu felmecanwaith pontio rhwng partneriaid, Cynghorau Tref a Chymunedol a’r gymuned. Mae'r Tîm Partneriaeth Cymunedol a Datblygu hefyd yn ganolog i gyflawniad Cynllun Llesiant Sir Fynwy.

**Aelodau o'r Cyhoedd, Busnesau, Perchnogion Tir, Datblygwyr ac Asiantau**

3.14 Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, bydd ymgysylltu helaeth yn cael ei wneud ym mhob cyfnod allweddol o broses y CDLlA. Gwneir ymdrech i ymgysylltu â'r gymuned fusnes yn gynnar, y gellid ei gyflawni drwy gysylltu â siambrau masnach unigol ar draws y Sir. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag asiantau cynllunio sy'n gwsmeriaid rheolaidd o Wasanaeth Cynllunio Sir Fynwy. Fel y nodwyd uchod, gall unrhyw un ofyn am eu manylion i gael eu cynnwys ar gronfa ddata'r CDLlA. Caiff tirfeddianwyr, asiantau a darpar ddatblygwyr, sy'n dymuno cyflwyno tir i'w ystyried ar gyfer datblygiad, hefyd eu cynnwys ar gronfa ddata'r CDLlA.

3.15 Bydd proses y Safleoedd Ymgeisiol yn rhoi cyfle i'r rhai sydd â diddordeb mewn tir gyflwyno safleoedd i'w hystyried i'w datblygu. Mae methodoleg gyffredin wedi'i sefydlu ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru i awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio ar gyfer eu CDLlAau perthnasol. Er mwyn adlewyrchu hyn, roeddwn wedi mabwysiadu dau gam ar gyfer yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol. Roedd yr Alwad Gychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol wedi ei chynnal dros 16 wythnos rhwng 30ain Mehefin 2018 a'r 19eg Tachwedd 2018. Roedd yr Ail Alwad am Safleoedd Ymgeisiol wedi ei chynnal rhwng 5ed Gorffennaf 2021 a'r 31ain Awst 2021, ar y cyd ag ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir 2021. Roedd y dyddiadau yma wedi eu hysbysebu'n helaeth gan ddenfyddio'r dulliau a nodwyd uchod. Sicrhaodd hyn bod sylwadau wedi eu cyflwyno ar yr adeg briodol.

**Cyrff Ymgynghori Ychwanegol**

3.16 Mae Atodiad 1 yn rhoi rhestr o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ynghyd ag adrannau'r Llywodraeth ac ymgyngoreion eraill. Mae'r ymgyngoreion penodol[10] yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n berthnasol i ardal y Cynllun diwygiedig, er enghraifft Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan sy'n cwmpasu ardal Sir Fynwy a Dŵr Cymru, yr ymgymerwr dŵr lleol. Rhaid i'r Awdurdod hefyd ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU lle mae'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau. Bydd y cyrff ymgynghori hyn yn cael eu cynnwys drwy gydol proses y CDLlA ym mhob un o'r camau ffurfiol ac anffurfiol, fel y bo'n briodol.

**Grwpiau Anodd Eu Cyrraedd**

3.17 Grwpiau anodd eu cyrraedd a'r rhai nas clywir yn aml yw'r grwpiau hynny nad ydynt wedi cymryd rhan yn draddodiadol yn y broses o baratoi'r cynllun. Felly bydd ymdrech ychwanegol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y grwpiau hyn yn cymryd rhan ym mhroses y CDLlA. Bydd angen dull hyblyg mewn perthynas ag ymgysylltu â'r grwpiau hyn, er bydd rhaid o hyd ei wneud o fewn paramedrau'r cyfnodau cyfranogi/ymgynghori penodedig. Gellir cyflawni'r ymgysylltu â'r grwpiau hyn drwy ddefnyddio partneriaethau a grwpiau sy'n

[10] Fel sydd wedi ei ddiffinio yn Rheoliad 2 CDLl. Rhestr lawn yn Atodiad 1.

bodoli eisoes lle bynnag y bo modd. Cydnabyddir serch hynny mai'r union egwyddor o ran grwpiau anodd eu cyrraedd yw efallai na fyddant fel unigolion yn rhan o grwpiau sy'n bodoli eisoes ac efallai na fyddant bob amser yn gyraeddadwy. Caiff cyfryngwyr cymeradwy eu defnyddio hefyd, fel y bo'n briodol, er mwyn cael barn grwpiau o bobl nad oes ganddynt yr hyder i gymryd rhan yn uniongyrchol yn y broses.

3.18 Nodir nad yw'r grwpiau canlynol wedi eu hymgysylltu'n ddigonol wrth baratoi'r cynllun o'r blaen ac felly byddant yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y CDLlA:

- Pobl Ifanc – Caiff Cyngor Ieuenctid Sir Fynwy[11] eu gwahodd i gymryd rhan fel y bo'n briodol ym mhroses y CDLlA. Bydd hyn yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed ac yn galluogi pobl ifanc i rannu eu barn ar ystod eang o faterion sy'n bwysig iddynt hwy a'u hardal leol, yn eu barn nhw.
- Pobl Anabl – byddwn yn ceisio ymgysylltu â grŵp/grwpiau rhanddeiliaid priodol ar adegau perthnasol, er mwyn cael barn y rhai sy'n byw gydag anableddau yn Sir Fynwy. Deallwn fod y fforwm Mynediad i Bawb wedi'i ddiddymu'n ddiweddar ond byddwn yn ceisio mewnbwn gan randdeiliaid perthnasol i gynnig cyfle i bobl sydd ag anableddau ddylanwadu ar y polisïau a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Sipsiwn a Theithwyr – byddwn yn ceisio ymgysylltu â grŵp/grwpiau rhanddeiliaid priodol ar adegau perthnasol er mwyn sicrhau bod y gymuned sipsiwn a theithio yn ymgysylltu'n briodol. Mae gwaith yn cael ei wneud drwy'r Pwyllgor Craffu Pobl a'i arwain gan dîm tai y Cyngor er mwyn adnabod safleoedd i'w cynnwys yn y CDLlA er mwyn diwallu'r angen yma. Mae'r Gwaith yn cynnwys cynrychiolwyr Sipsiwn a Theithwyr.

3.19 Yn ogystal â'r grwpiau anodd eu cyrraedd uchod, mae yna leisiau eraill nas clywir yn aml, yr ystyrir eu bod wedi'u tangynrychioli o'r blaen wrth baratoi CDLl. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) y rhai sy'n chwilio am dai fforddiadwy yn y Sir, adeiladwyr tai maint bach a mentrau bach a chanolig eu maint. Yn unol â hynny, byddwn yn ymdrechu i estyn allan at y grwpiau hyn drwy ddefnyddio pwyntiau cyswllt cydfuddiannol presennol lle bynnag y bo modd.

**Beth rydym yn disgwyl gennych chi**

3.20 Er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadau a chynrychiolaethau ar y CDLlA yn cael eu hystyried, rhaid eu cyflwyno o fewn yr amserlenni rhagnodedig. Mae'r Cytundeb Cyflenwi yn nodi amserlen y camau perthnasol ac yn darparu canllaw o'r adeg pan fyddwn yn gofyn am eich

[11] Gweithwyr ieuenctid a disgyblion o Ysgol Brenin Harri'r VIII, Ysgol Cil-y-coed, Ysgol Cas-gwent ac Ysgol Trefynwy

cyfranogiad. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau unigol yn cael eu hystyried derbyn sylw drwy gydol proses baratoi'r CDLlA.

3.21 Mae hefyd yn bwysig bod rhanddeiliaid yn hysbysu'r tîm Polisi Cynllunio os yw eich manylion cyswllt yn newid yn ystod proses y CDLlA er mwyn i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y cynnydd. O ran Safleoedd Ymgeisiol, nodir y gallai newidiadau perchnogaeth tir ddigwydd yn ystod y broses hefyd ac mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyfleu i'r tîm Polisi Cynllunio er mwyn sicrhau nad yw cynnydd yn cael ei ohirio.

**Creu Consensws**

3.22 Bydd y Cyngor yn ceisio meithrin consensws drwy'r dulliau ymgysylltu ac ymgynghori gwahanol fel y nodir o fewn y CCG. Dim ond os yw'r gymuned a phartïon eraill â diddordeb yn cael eu hysbysu'n llawn ac yn cymryd rhan effeithiol wrth baratoi'r CDLlA y gellir sicrhau consensws, a fydd yn arbennig o bwysig yng nghamau cynnar paratoi'r cynllun. Mae cefnogaeth Aelodau Etholedig yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn. Cydnabyddir serch hynny y bydd adegau pan nad yw consensws yn bosib ac mae gwahaniaeth barn rhwng rhai partïon yn digwydd. Caiff llwybr archwilio clir o benderfyniadau ei gynnal er mwyn sicrhau bod tryloywder yn y broses gwneud penderfyniadau, ac, i roi sicrwydd i'r rhai sy'n anghytuno, bod y penderfyniadau wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus a chytbwys. Fodd bynnag, ni fydd penderfyniadau a wnaed wedyn yn cael sylw drwy gyfleoedd ymgynghori dilynol, felly gofynnir i gyfranogwyr ganolbwyntio’u mewnbwn ar y mater sy'n cael ei ystyried ar yr adeg hynny.

**Sylwadau hwyr**

3.23 Fel y nodwyd uchod, mae angen ymatebion erbyn dyddiad cau penodedig y cyfnod ymgynghori penodol er mwyn iddynt gael eu hystyried. Ni fydd unrhyw sylwadau/ cynrychiolaethau hwyr yn cael eu cofnodi fel rhai 'sydd wedi'u gwneud yn briodol' oherwydd nid oeddynt wedi cael eu derbyn yn unol â'r amserlenni a gyhoeddwyd. Efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan gyflwynir cynrychiolaeth yn hwyr, a bydd yn ôl disgresiwn y Cyngor o ran a ellir derbyn cynrychiolaethau hwyr o'r fath. Bydd angen tystiolaeth i dynnu sylw at y rheswm pam y gohiriwyd y gynrychiolaeth a bod ymgais wirioneddol wedi'i gwneud i gyflwyno o fewn y terfyn amser rhagnodedig. Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLlA yn parhau i fod yn heriol, gallai derbyn sylwadau hwyr arwain at oedi pellach na fyddai'n dderbyniol.

**Argaeledd Dogfennau**

3.24 Bydd dogfennau'r CDLlA ar gael ym mhob un o'r camau perthnasol. Bydd yr holl ddogfennau ar gael yn electronig ar dudalennau Polisi Cynllunio gwefan y Cyngor sef:

http://www.monmouthshire.gov.uk/Planning-policy. Mae cyfrifiaduron ar gael o'r cyhoedd yn ein Hybiau Cymunedol sydd wedi eu rhestru isod:

3.25 Yn ogystal â bod ar gael ar-lein, bydd y dogfennau hefyd ar gael mewn fersiynau papur yn y lleoliadau canlynol:

- Derbynfa Cynllunio, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA (ar agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Iau)
- Hyb Cymunedol y Fenni, Neuadd y Farchnad, Stryd y Groes, Y Fenni, NP7 5HD
- Hyb Cymunedol Cil-y-coed, Ffordd Woodstock, Cil-y-coed, NP26 5DB
- Hyb Cymunedol  Cas-gwent, Manor Way, Cas-gwent, NP16 5HZ
- Hyb Cymunedol Trefynwy, Neuadd Rolls, Stryd Whitecross, Trefynwy, NP15 3BY
- Hyb Cymunedol Brynbuga, 35 Stryd Maryport, Brynbuga, NP15 1AE
- Llyfrgell Gilwern, Ffordd y Comin, Gilwern, NP7 0DS

3.26 Ni fydd copïau papur o ddogfennau'n cael eu hanfon allan yn ystod proses y CDLlA gan y byddant ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau a restrir uchod, yn ogystal â bod ar gael yn electronig. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cynnig copïau papur, ond caiff hyn ei asesu fesul achos yn dibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn perthnasol. Os bydd un o'r adeiladau a restrir uchod ar gau dros dro yn ystod cyfnod ymgynghori, fel y gwelwyd yn ystod y pandemig, byddwn yn ymdrechu i nodi allfeydd amgen a chyfleu hyn i'r holl randdeiliaid. Lle nad oes mannau eraill ar gael, byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth i randdeiliaid drwy ddulliau electronig.

**Amserlen a Dulliau Ymgysylltu Arfaethedig**

3.27 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amserlen fanwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'r dulliau ymgysylltu arfaethedig ar gyfer y cyfnodau allweddol yn ystod proses baratoi'r CDLlA. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gellir ei haddasu i sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn cymryd rhan briodol ym mhob cam. Bydd y dulliau ymgysylltu arfaethedig yn amrywio gan ddibynnu ar gam paratoi'r cynllun, yn amodol ar y pwnc dan sylw, dewis y rhai sy'n cymryd rhan a'r adnoddau sydd ar gael ar y pryd, gan gydnabod na ddylai'r amserlen na'r dulliau arfaethedig atal y gwaith o baratoi'r cynllun.

3.28 Bydd rhagor o fanylion am union natur y trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer camau ymgynghori allweddol yn y dyfodol yn cael eu nodi ar wefan y Polisi Cynllunio, ac mewn gohebiaeth yn y dyfodol i bawb ar gronfa ddata'r CDLlA cyn dechrau unrhyw broses ymgynghori. Bydd cymysgedd o ddigwyddiadau cyhoeddus a dulliau ymgysylltu rhithwir yn cael eu defnyddio drwy gydol gweddill proses baratoi'r Cynllun.

**Tabl 3 - Amserlen arfaethedig o ran cynnwys y gymuned a dulliau ymgysylltu.**

| **Cam Diffiniol: Cytundeb Cyflawni** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **ACI/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |
| • Paratoi amserlen ar gyfer proses y CDLlA<br>• Paratoi Cynllun Cynnwys y Gymuned<br>• Drafft Ymgynghori'r Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno Cytundeb Cyflawni Terfynol i Lywodraeth Cymru yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor | • Rhoi manylion am integreiddio'r broses AC (ACI) / AAS Integredig yn yr amserlen | • Ymgyngoreio-n Mewnol<br>• Aelodau<br>• Cyrff ymgynghori penodol | • Ymgynghori ag Aelodau drwy Gyfarfod y Cyngor<br>• Ymgynghori â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>• Ymgynghori wedi'i dargedu â chyrff ymgynghori penodol drwy ohebiaeth uniongyrchol<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost | • Amserlen realistig ar gyfer paratoi'r CDLl diwygiedig<br>• Manylion rheoli risg<br>• Cynigion cynnwys y gymuned wedi'u nodi<br>• Cydweithio<br>• Dechrau ffurfiol diwygio'r CDLl | Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (4) (Rhagfyr 2022) Diwygiedig (3) – | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 9 a 10 (2004) a Rheoliad 2 (5) (2015) |

| Cam Diffiniol: Cyfranogiad Cyn Adneuo | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **• ACI/AAS ac ARhC** | **• Pwy fydd yn cymryd rhan** | **• Dulliau ymgysylltu** | **• Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |
| • Adolygu a diweddaru sail dystiolaeth bresennol y CDLl<br>• Galwad Cychwynnol am Safleoedd Ymgeisiol (gan gynnwys galwad am safleoedd tir llwyd) – am gyfnod o 16 wythnos<br>• Ymgysylltu ag ymgyngoreion i ddatblygu consensws ar weledigaeth, materion ac amcanion.<br>• Ymgysylltu ag ymgyngoreion I ddatblygu consensws ar opsiynau, gan gynnwys lefelau twf a dosbarthiad gofodol<br>• Cael cymeradwyaeth Aelodau ar y Strategaeth a Ffafrir | • Adroddiad Diwygiedig Cwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyed d Integredig - gwybodaeth, dangosyddion ac amcanion sylfaenol.<br>• Cynhyrchu fframwaith cynaliadwyed d diwygiedig.<br>• Sgrinio ARhC y cynigion cyn adneuo ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol (cam 1). | • Ymgyngoreio -n Mewnol<br>• Aelodau<br>• Cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol (gan gynnwys Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan)<br>• Ymgyngoreio n eraill (gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaetha u Cyhoeddus)<br>• Grwpiau Anodd eu Cyrraedd<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedi gion Cyfarfod Clwstwr | • Sesiynau galw heibio, arddangosfeydd a chyfarfodydd fel y bo'n briodol. Bydd y rhain yn cael eu haddasu i ystyried cyngor diweddaraf y Llywodraeth ynghylch cadw at ymbellhau cymdeithasol a mesurau angenrheidiol eraill (gweler uchod).<br>• Ymgysylltu ac ymgynghori rhithwir drwy ddulliau technolegol ar y we fel gweminarau.<br>• Ymgysylltu ag Aelodau drwy weithdai ac adrodd i gyfarfodydd y Cyngor. Cynhelir gweithdai a seminarau digidol lle nad yw digwyddiadau wyneb yn wyneb yn bosibl.<br>• Cyhoeddi pob cam cyfranogi/ymgynghori | • Codi ymwybyddiaeth o'r CDLlA<br>• Cynnwys y rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan<br>• Ceisio consensws ar weledigaeth, problemau ac amcanion<br>• Cydweithio<br>• Ceisio consensws ar opsiynau, gan gynnwys lefelau twf a dosbarthiad<br>• Derbyn Safleoedd Ymgeisiol<br>• Adroddiad Cwmpasu drafft yr AC/AAS<br>• Strategaeth a Ffafrir | Cymeradwyaeth i fwrw ymlaen gyda'r CDLLa, Medi 2022 Cyngor Llaw yn Adrodd ar y Strategaeth a Ffefrir drafft – Mai 2021<br><br>Cyngor Llawn - Strategaeth a Ffefrir draft I'w gymeradwyo ac ymgynghori, Rhagfyr 2022<br><br>Cofnodi manylion cynnwys ar gyfer Adroddiad yr Ymgynghoriad | Rheoliad Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 14 (2004) a Rheoliad 2 (10) (2015) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Cynnwys Grŵp 'Engage 2 Change' a Fforwm Ieuenctid Sir Fynwy<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol<br>• Paratoi dogfen Gryno Hawdd ei Darllen | | | |
| **Cam Diffiniol: Ymgynghoriad Cyn Adneuo - Strategaeth a Ffafrir ac Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Cychwynnol (AGCC)** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **ACI/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |
| • Ymgynghoriad ffurfiol ar y Strategaeth a Ffafrir<br>• Ymgynghoriad ffurfiol ar yr AGCC<br>• Galwad pellach am Safleoedd Ymgeisiol/Cais am gyflwyno gwybodaeth fanwl am y safleoedd, ar gyfer y safleoedd hynny a gyflwynwyd yn ystod yr alwad safle ymgeisiol gychwynnol sy'n gydnaws â'r Strategaeth a Ffafrir | • Ymgynghoriad ffurfiol ar yr AGCC a'r ARhC Integredig<br>• ARhC o'r Cynllun Adneuo. Ailedrych ar Sgrinio'r ARhC i benderfynu a oes gan y polisïau a'r cynigion y | • Ymgyngoreion Mewnol<br>• Aelodau<br>• Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Ymgyngoreion eraill<br>• Grwpiau Anodd eu Cyrraedd<br>• Cynghorau | • Ymgysylltu ag Aelodau drwy weithdai ac adroddiadau i gyfarfodydd y Cyngor. Cynhelir gweithdai a seminarau digidol lle nad yw digwyddiadau wyneb yn wyneb yn bosibl.<br>• Sesiynau, arddangosfeydd a chyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd fel y bo'n | • Strategaeth a Ffafrir<br>• Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Cychwynnol<br>• Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol<br>• Cynllun Adneuo Drafft | Y Cyngor Llawn Cynllun Adneuo I'w gymeradwyo ar gyfer ymgynghoir ac ymgysylltu Mawrth 2024<br><br>Cynnwys manylion yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 15 a 16 (2004) a Rheoliad 16a (2015) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Cyhoeddi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol<br>• Paratoi Adroddiad Cychwynnol yr Ymgynghoriad gan roi adborth a sylwadau ar y sylwadau a dderbyniwyd.<br>• Paratoi CDLlA Adneuo Cael cymeradwyaeth Aelodau ar y CDLlA Adneuo | potensial i arwain at effeithiau sylweddol tebygol, y tu hwnt i'r rhai a ystyriwyd wrth sgrinio Cam 1. | Tref a Chymunedol Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | briodol. Efallai y bydd angen addasu'r rhain i ystyried cyngor diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â'r pandemig – rhoddir ystyriaeth bellach i hyn ar y pryd (gweler uchod). Ymgysylltu ac ymgynghori rhithwir drwy ddulliau technolegol ar y we fel gweminarau.<br>• Cyhoeddi pob cam ymgynghori ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Cynnwys Grŵp 'Engage 2 Change' a Fforwm Ieuenctid Sir Fynwy<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol<br>• Paratoi dogfen Gryno Hawdd ei Darllen | | | |
| **Cam Diffiniol: Ymgynghoriad Adneuo - Cynllun Adneuo, Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (AGC) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **AC/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Adneuo'r CDLlA i'w archwilio gan y cyhoedd<br>• Ymgynghoriad ffurfiol ar CDLlA Adneuo, AGCC, ARhC ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol<br>• Paratoi Adroddiad yr Ymgynghoriad gan roi adborth a sylwadau ar y cynrychiolaethau a dderbyniwyd | • Ymgynghoriad ffurfiol ar yr AGCC (gan ymgorffori'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd)<br>• Ymgynghoriad ffurfiol ar yr ARhC | • Ymgyngoreion Mewnol<br>• Aelodau<br>• Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Ymgyngoreion eraill<br>• Grwpiau Anodd eu Cyrraedd<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | Ymgysylltu ag Aelodau drwy weithdai ac adroddiadau i gyfarfodydd y Cyngor. Gellir cynnal gweithdai a seminarau digidol lle nad yw digwyddiadau wyneb yn wyneb yn bosibl. Rhoddirystyriaeth bellach i hyn ar y pryd (gweler uchod).<br>• Sesiynau, arddangosfeydd a chyfarfodydd ymgysylltu â'r cyhoedd fel y bo'n briodol. Efallai y bydd angen addasu'r rhain i ystyried cyngor diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â'r pandemig – rhoddir ystyriaeth bellach i hyn ar y pryd (gweler paragraff 3.29).<br>• Ymgysylltu ac ymgynghori rhithwir drwy ddulliau technolegol ar y we fel gweminarau.<br>• Cyhoeddi pob cam ymgynghori ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon | • Cynllun Adneuo<br>• Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Terfynol<br>• Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<br>• Cynnwys y sylwadau a chynrychiolaethau ar y Cynllun Adneuo, AC/AAS, ARhC yn yr Adroddiad Ymgynghori | Cynnwys manylion yr ymatebion a dderbyniwyd yn yr Adroddiad Ymgynghori. | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 17, 18 ac 19 (2004) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Diweddaru Grŵp 'Engage 2 Change' a Fforwm Ieuenctid Sir Fynwy<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol<br>• Paratoi dogfen Gryno Hawdd ei Darllen | | | |
| **Cyfnod Dangosol: Cyflwyno CDLlA i Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **AC/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Ystyried unrhyw sylwadau a wneir ar gynigion adneuo a diweddaru'r Cynllun Adneuo ac Adroddiad yr Ymgynghoriad yn unol â hynny<br>• Ymgynghoriad posibl o ran Newidiadau â Ffocws<br>• Cyflwyno CDLlA Adneuo, Adroddiad Ymgynghori, Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig (AGCI), y Cynllun Cynnwys y Gymuned ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol (gan gynnwys y sail dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio | • Ystyried unrhyw oblygiadau sylwadau ar yr AGCI a'r ARhC<br>• Cyflwyno'r AGCI<br>• Cyflwyno'r ARhC | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Ymgyngoreion eraill<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | • Rhoi gwybod i'r Aelodau dros e-bost<br>• Cyhoeddi ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol<br>• Darparu copïau o ddogfennau yn y lleoliadau canlynol: Neuadd y Sir, Llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol | • Cyflwyno'r CDLlA Adneuo a dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio'n ffurfiol | Y Cyngor Llawn i adrodd ar yr ymatebion a gafwyd ar y Cynllun Adneuo, unrhyw Newidiadau â Ffocws, ac i geisio cymeradwyaeth i'w cyflwyno – Hydref 2024 | Rheoliad Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 22 (2004) a Rheoliad 2 (17) (2015) |
| **Cyfnod Dangosol: Archwiliad Annibynnol** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **AC/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Cyhoeddi manylion Sesiynau Gwrandawiad a rhoi gwybod i bawb sydd â diddordeb, gan nodi dyddiadau a lleoliad<br>• Ceisio dod o hyd i dir cyffredin gyda gwrthwynebwyr er mwyn rhoi ffocws i'r sesiynau gwrandawiad<br>• Diweddaru'r Materion sy'n Codi - Newidiadau fel y bo'n briodol<br>• Ymgynghori ar Newidiadau Materion sy'n Codi | • Arfarnu unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi gan ddefnyddio'r ACI/AAS fel y bo'n briodol<br>• Arfarnu unrhyw Newidiadau Materion sy'n Codi gan ddefnyddio'r ARhC fel y bo'n briodol | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Ymgyngoreion eraill<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | • Rhoi gwybod i'r Aelodau dros e-bost<br>• Cyhoeddi ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol | • Sicrhau bod yr archwiliad yn agored i bawb sy'n dymuno arsylwi | Datganiadau o dir cyffredin, yn ôl yr angen | Rheoliad Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 23 (2004) |
| **Cyfnod Dangosol: Adroddiad yr Arolygydd** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **AC/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |
| • Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ar ôl ei dderbyn (o fewn cyfnod | | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol | • Rhoi gwybod i'r Aelodau dros e-bost | • Adroddiad Rhwymol yr Arolygydd | Dim | Rheoliad Cynllunio Gwlad a Thref |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| rhagnodedig o 8 wythnos)<br>• Hysbysu partïon â diddordeb o ran derbyn a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | | • Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol<br>• Ymgyngoreion eraill<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | • Cyhoeddi ar wefan y Cyngor<br>• Twitter drwy gyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Facebook drwy'r cyfrif corfforaethol<br>• Datganiad i'r wasg<br>• Gwybodaeth drwy lythyr neu e-bost fel y bo'n briodol<br>• Darparu copi o Adroddiad yr Arolygydd yn y lleoliadau canlynol: Neuadd y Sir, Llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol | | | (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 24 (2004) |
| **Cyfnod Dangosol: Mabwysiadu** | | | | | | |
| **Crynodeb o'r camau allweddol** | **AC/AAS ac ARhC** | **Pwy fydd yn cymryd rhan** | **Dulliau ymgysylltu** | **Canlyniad** | **Y math o adrodd sydd ei angen** | **Rheoliadau CDLl** |
| • Cael cymeradwyaeth Aelodau i'w mabwysiadu'n ffurfiol<br>• Rhoi gwybod i bawb sydd ar gronfa ddata'r CDLlA o ran mabwysiadu'r CDLlA | • Cyhoeddi Adroddiad ACI<br>• Cyhoeddi Adroddiad yr ARhC | • Aelodau<br>• Ymgyngoreion Mewnol<br>• Cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol | • Ymgysylltu ag Aelodau drwy Weithdy'r Holl Aelodau a Chyfarfod y Cyngor<br>• Unwaith y caiff ei fabwysiadu, ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | • Mabwysiadu'r CDLlA yn ffurfiol | Cyngor Llawn cyn mabwysiadu'n ffurfiol – Gorffennaf 2025 | Rheoliad Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 25 (2004) a 2(19) (2015) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| • Cynhyrchu datganiad mabwysiadu<br>• Cynhyrchu'r CDLlA mabwysiedig yn ddwyieithog | | • Ymgyngoreion eraill<br>• Cynghorau Tref a Chymunedol<br>• Gwahoddedigion Cyfarfod Clwstwr Ardal / Pwyllgor Ardal<br>• Pawb arall ar gronfa ddata'r CDLlA | • Ar ôl ei fabwysiadu, hysbysiad drwy Twitter gan ddefnyddio cyfrifon polisi cynllunio a chorfforaethol<br>• Ar ôl ei fabwysiadu, hysbysiad drwy Facebook gan ddefnyddio’r cyfrif corfforaethol<br>• Ar ôl ei fabwysiadu, cyhoeddir Datganiad i'r Wasg<br>• Ar ôl ei fabwysiadu, hysbysiad drwy lythyr neu e-bost<br>• Ar ôl ei fabwysiadu, darparu copi o'r CDLl Mabwysiedig yn y lleoliadau canlynol: Neuadd y Sir, Llyfrgelloedd a Hybiau Cymunedol | | | |

**Manylion Cyswllt**

3.29 Gallwch gysylltu â'r tîm polisi cynllunio gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk
Rhif Ffôn: 01633 644429

Post:
Polisi Cynllunio
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

## Atodiad 1 – Rhestr o'r Cyrff Ymgynghori

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori cyffredinol canlynol ym mhob cam o baratoi'r CDLlD.

**Cyrff Ymgynghori Penodol[12] (gan gynnwys Adrannau Llywodraeth y DU):**

- Llywodraeth Cymru (Bydd yr is-adran gynllunio yn cydlynu ymgynghoriadau)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Network Rail
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Gweithredwyr Telegyfathrebu - EE, Vodaphone ac O2, Openreach, Virgin Media
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Trwyddedau Nwy a Thrydan - Grid Cenedlaethol, Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin
- Ymgymerwyr Carthffosiaeth a Dŵr – Dŵr Cymru Welsh Water
- Yr Adran Drafnidiaeth (gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol dros swyddogaethau a arferid yn flaenorol gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
- Adrannau Llywodraeth y DU - Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Awdurdodau lleol cyfagos:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Dinas Bryste
- Panel Cynllunio Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd[13]
- Cyngor Dosbarth Coedwig y Deon
- Cyngor Sir Gaerloyw
- Cyngor Sir Swydd Henffordd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor De Swydd Caerloyw
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynghorau Tref a Chymunedol yn ardal Sir Fynwy:

- Cyngor Tref y Fenni
- Cyngor Cymuned Caerwent
- Cyngor Tref Cil-y-coed
- Cyngor Tref Cas-gwent
- Cyngor Cymuned Crucornau
- Cyngor Cymuned y Dyfawden
- Cyngor Cymuned Gobion Fawr
- Cyngor Cymuned Goetre Fawr
- Cyngor Cymuned Grysmwnt
- Cyngor Cymuned Llanarth Fawr

[12] Fel y diffinnir yn Rheoliad CDLl 2.
[13] Unwaith y caiff ei sefydlu

- Cyngor Cymuned Llanbadog
- Cyngor Cymuned Llanelly
- Cyngor Cymuned Llan-ffwyst Fawr
- Cyngor Cymuned Llangybi Fawr
- Cyngor Cymuned Llandeilo Bertholau
- Cyngor Cymuned Llantrisant
- Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy
- Cyngor Cymuned Matharn
- Cyngor Cymuned Llanfihangel Troddi
- Cyngor Tref Trefynwy
- Cyngor Cymuned Porthsgiwed
- Cyngor Cymuned Rhaglan
- Cyngor Cymuned Rogiet
- Cyngor Cymuned Drenewydd Gelli-farch
- Cyngor Cymuned Ynysgynwraidd
- Cyngor Cymuned Llanarfan
- Cyngor Cymuned Tyndyrn
- Cyngor Cymuned Tryleg Unedig
- Cyngor Tref Brynbuga
- Cyngor Cymuned Whitecastle
- Cyngor Cymuned Dyffryn Gwy

**Cyrff Ymgynghori Cyffredinol**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori cyffredinol canlynol, lle y bo'n briodol, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni hwn. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a gellir ychwanegu ati:

(i) Cyrff gwirfoddol y mae eu gweithgareddau'n buddio unrhyw ran o ardal yr awdurdod:

- Age Concern Gwent
- Cymdeithas y Deillion Gwent
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent Sir Fynwy (CMGG)
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent
- Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol

(ii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr awdurdod:

- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig
- Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr
- Travelling Ahead Wales

(iii) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr awdurdod.

- Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

(iv) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl yn ardal yr awdurdod.

- Cymdeithas Syndrom Downs
- Cymdeithas y Deillion Gwent
- Mencap Cymru
- Mind Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
- Cyngor Cymru dros Bobl Fyddar
- Cyngor Cymru i'r Deillion
- Cyngor Cymru i'r Anabl

(v) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n cynnal busnes yn ardal yr awdurdod.

- Menter Gymunedol y Fenni
- Cymdeithas Ynni Gwynt Prydain
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
- Ailgylchu Cymunedol Gwneuthurwyr Cartref
- Asiantaeth Ynni De Ddwyrain Cymru
- Viridor Waste Management Ltd

(vi) Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr awdurdod.

- Cadw
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent cyf.
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Mentrau Iaith Cymru


**Ymgyngoreion Eraill**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r ymgyngoreion eraill canlynol, lle y bo'n briodol, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a gellir ychwanegu ati:

- Cymdeithas Hanes Lleol y Fenni
- Tref Bontio'r Fenni
- Trenau Arriva Cymru
- Cymdeithas Agregau Prydain
- Arolwg Daearegol Prydain
- Fforwm Cydnerthedd Busnes
- Busnes Cymru (Canolfan Ranbarthol De Cymru)
- Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn (Camra)
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CDG)
- Tîm Tref Cil-y-coed
- Bargen Ddinesig Rhanbarth Prifddinas Caerdydd
- Siambrau Masnach – Y Fenni, Cas-gwent, Trefynwy a Brynbuga
- Cymdeithas Charter Housing
- Sefydliad Tai Siartredig (Cymru)
- Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru
- Cymdeithasau Dinesig – Y Fenni a'r Cylch, Trefynwy a Brynbuga

- Gwasanaeth Cynghori Tir Cymunedol Cymru (CLAS)
- Cymdeithas Tirfeddianwyr a Busnesau Cefn Gwlad Cymru (CLA)
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Prosiect Cyngor ar Anabledd
- Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru
- Anabledd Cymru
- Pwyllgor Ymgynghorol Trafnidiaeth Pobl Anabl
- Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Ffederasiwn y Meistri Adeiladu Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
- Ymddiriedolaeth Fields in Trust
- Cymdeithas Cludo Nwyddau
- Cyfeillion y Ddaear – Y Fenni a Chrug Hywel a Chas-gwent
- Grŵp Moch Daear Gwent
- Heddlu Gwent
- Clybiau Ffermwyr Ifanc Gwent
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Cymru)
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru
- Cyd-gyngor Cymru
- Ystâd Llanarth
- Ystâd Llangybi
- Ystâd Llanofer a Coldbrook
- Aelod Seneddol San Steffan Sir Fynwy
- Aelod Seneddol San Steffan Dwyrain Casnewydd
- Aelod y Senedd dros Sir Fynwy
- Aelod y Senedd dros Ddwyrain Casnewydd
- Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Magwyr a Gwndy
- Cymdeithas Cynhyrchion Mwynau
- Cymdeithas Archeolegol Trefynwy
- Ymddiriedolaeth Camlesi Trefynwy, Aberhonddu a'r Fenni
- Grŵp Ystlumod Sir Fynwy
- Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru
- Comisiynwyr Harbwr Casnewydd
- Un Llais Cymru
- Y Gymdeithas Mannau Agored
- Cymorth Cynllunio Cymru
- Swyddfa Ystâd Parc Pont-y-pŵl
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Grŵp Cludo Nwyddau'r Rheilffyrdd
- Cerddwyr Cymru
- RSPB Cymru
- Swyddog Galluogi Tai Gwledig
- Shelter Cymru
- Cymdeithas Meysydd Drenewydd Gelli-farch a Mynydd-bach
- Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Sustrans Cymru
- Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
- Cymdeithas Cas-gwent
- Yr Awdurdod Glo
- Y Cyngor Sipsiwn
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Yr Arolygiaeth Gynllunio
- Ymddiriedolaeth y Theatrau
- Trawsnewid Cas-gwent
- Trawsnewid Trefynwy
- Canolfan Cydweithredol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
- Addysg Oedolion Cymru
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
- Ystadau Iechyd Cymru
- Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Coed Cadw
- AHNE Dyffryn Gwy
- Cymdeithas Dyffryn Gwy


Ymgynghoriad Cyn-Adneuo
Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (SFf) diwygiedig
Ymgynghoriad ar yr Adroddiad ACC Cychwynnol diwygiedig a'r ARhC
Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad SFf a'n paratoi'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol
Cam Allweddol - Diffiniol
2021
2022
2023
2024
2025
I CH M E M M G A M H T RH
Paratoi'r Cynllun Adneuo, diweddaru'r ACC/ARhC
Adroddiad Gwleidyddol Cynllun Adneuo
Adneuo Statudol
Ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo, Adroddiad ACC a ARhC
Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'n paratoi'r Adroddiad Ymgynghori
Cam Allweddol - Dangosol
Cyflwyno'r CDLIA i LIC
Asesu
Adroddiad yr Arolygydd – Paratoi
Adroddiad yr Arolygydd - Cyhoeddi
Mabwysiadu

## Atodiad 3 – Asesu Risg

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| Bwlch mewn ceisiadau mawr sy'n dod ymlaen tan fod y CDLlA wedi ei fabwysiadu. | Er bod llythyr Gweinidogol 2020 wedi cadarnhau y bydd y CDLl Mabwysiedig yn parhau mewn grym tan fod y CDLlA wedi ei fabwysiadu, bydd yna oedi mewn ceisiadau mawr sy'n dod ymlaen tan fod y CDLlA wedi ei fabwysiadu. Bydd hyn yn effeithio ar allu'r Cyngor i fynd i'r afael gyda materion ac amcanion y CDLlA gan gynnwys yr heriau demograffeg a fforddiadwyedd sydd yn wynebu'r Sir, tan fod y CDLlA wedi ei fabwysiadu ac mae'n rhoi pwysau ar fedru darparu tai fforddiadwy a'r ffigyrau cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun, gyda mwy o ddibyniaeth ar gyflenwi tua diwedd cyfnod y Cynllun. | Bydd dilyniant o'r CDLlA mewn modd amserol yn sicrhau bod gan y Cyngor CDLlA mabwysiedig cyn gynted ag sydd yn bosib yn 2025, gan leihau'r goblygiadau negatif sydd yn rhan o'r oedi gyda cheisiadau mawr sy'n dod ymlaen. | Tebygolrwydd Canolig<br><br>Effaith Ganolig |
| Gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i'r Strategaeth a Ffefrir a/neu'r Cynllun Adneuo. | Llithriant y rhaglen | Cydlafurio gyda swyddogion LlC yn unol gyda'r pum ffordd i weithio gan y WBFGA. | Low Likelihood<br><br>High Impact |
| | Llithriant y rhaglen. | | Tebygolrwydd Canolig |

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| Newid yn yr adnoddau staff sydd ar gael i gynorthwyo gyda pharatoi'r CDLlA. | | Ystyried adnoddau ychwanegol (gan gynnwys cymorth gan adrannau eraill o fewn y Cyngor) a sicrhau strwythur cadarn. | Effaith Uchel |
| Trosiant staff mewn tîm bach. | Llithriant y rhaglen. | Sicrhau bod proses y CDLlA yn cynnal blaenoriaeth gorfforaethol lefel uchaf. | Tebygolrwydd Canolig<br>Effaith Uchel |
| Lleihad o ran, a diffyg, adnoddau ariannol. | Llithriant y rhaglen. Oedi cyn sicrhau'r wybodaeth sydd ei hangen i ddatblygu'r cynllun. | Sicrhau bod proses paratoi'r Cynllun yn cael ei chostio'n ddigonol gyda chapasiti adeiledig ar gyfer costau nas rhagwelwyd. | Tebygolrwydd Canolig<br>Effaith Uchel |
| Strwythur gwneud penderfyniadau 'r Cyngor/cylch adrodd gwleidyddol. | Llithriant y rhaglen. | Symleiddio gweithdrefnau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod yr amserlen yn realistig. | Tebygolrwydd Canolig<br>Effaith Ganolig |

| **Mater dan Sylw** | **Risg(iau) Posibl** | **Lliniaru** | **Tebygolrwydd ac Effaith** |
|---|---|---|---|
| Newid Gwleidyddol/ Etholiadau. | Llithriant y rhaglen. | Hyfforddiant Cynnar i Aelodau. | Tebygolrwydd Isel<br>Effaith Ganolig |
| Diffyg consensws ym mhob rhan o'r sefydliad a/neu ddiffyg cefnogaeth gan swyddogion/adrannau eraill wrth gynhyrchu'r sail dystiolaeth. | Llithriant y rhaglen. | Sicrhau cefnogaeth y sefydliad cyfan i broses ac amserlen y cynllun o'r cychwyn cyntaf. | Tebygolrwydd Isel<br>Effaith Ganolig |
| Amserlen heriol i baratoi CDLlA oherwydd llwyth gwaith mwy na'r disgwyl (e.e. mwy o gynrychiolaetha u a | Llithriant y rhaglen. | Amserlennu realistig ar gyfer pob cam o baratoi'r cynllun, adnoddau digonol a rheoli prosiectau'n ofalus gyda digon o arian wrth gefn/hyblygrwydd. Os yw'n briodol, ailystyried yr amserlen a'r adnoddau. | Tebygolrwydd Uchel |

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| dderbyniwyd, gofynion ISA/SEA/HRA). | | | Effaith Uchel |
| **Materion Cenedlaethol** | | | |
| Gofynion ychwanegol sy'n deillio o gyhoeddi deddfwriaeth newydd a/neu ganllawiau cenedlaethol. e.e. cydymffurfiaeth gyffredinol â'r FfDC, mabwysiedig, aliniad â Pholisi Cynllunio Cymru diwygiedig a Llawlyfr CDLl, TAN15 diwygiedig, ansawdd dŵr | Llithriant y rhaglen. | Monitro deddfwriaeth/canllawiau sy'n dod i'r amlwg; adrodd ac ymateb yn gynnar i newidiadau yn ôl yr angen. Parhau i gydweithio gyda phartneriaid. | Tebygolrwydd Uchel<br>Effaith Uchel |
| Cymryd rhan yn y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) | Llithriant y rhaglen. Goblygiadau o ran adnoddau, graddau'r mewnbwn i'r CDS yn anhysbys ar hyn o bryd. | Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael a chefnogaeth gorfforaethol i broses ac amserlen y CDS o'r cychwyn cyntaf | Tebygolrwydd Canolig |

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| | | | Effaith Ganolig |
| Cyfarwyddyd gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru i baratoi Cynllun ar y Cyd. | Byddai'r gwaith ar CDLl unigol hyd yma yn ofer. | Ni ellir ei liniaru, darparwyd cyfiawnhad llawn dros ddull y Cyngor o gynhyrchu CDLl sir Fynwy unigol.. | Tebygolrwydd Isel<br><br>Effaith Uchel |
| Gallu'r ymgyngoreion statudol a/neu'r Arolygiaeth Gynllunio i ymateb o fewn amserlenni penodol. | Ni chaiff cerrig milltir allweddol eu cyflawni.<br><br>Gohiriwyd Archwilio a/neu Dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. | Cynnal cyswllt agos ag ymgyngoreion statudol a'r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn sicrhau bod problemau yn cael eu nodi'n gynnar. | Tebygolrwydd Canolig<br><br>Effaith Ganolig |
| **Materion Lleol** | | | |
| Dim digon o wybodaeth i ymgymryd ag ACI/AAS. | Llithriant y rhaglen. | Nodi disgwyliadau cyrff ymgynghori.<br><br>Ystyried adnoddau ychwanegol. | Tebygolrwydd Isel |

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| | | | Effaith Ganolig |
| Lefelau mawr o wrthwynebiad a/neu lefelau sylweddol iawn o wrthwynebiad i gynigion e.e. dyrannu safleoedd. | Llithriant y rhaglen.<br><br>Ni ellir cyflwyno cynllun i'w archwilio heb waith sylweddol. | Sicrhau cyswllt agos a chyfranogiad cynnar/parhaus y gymuned, cyrff statudol a rhanddeiliaid drwy gydol proses paratoi'r cynllun. | Tebygolrwydd Canolig<br><br>Effaith Ganolig |
| Adolygiad o'r CDLlA o ganlyniad i ofyniad i gyd-fynd â Chynllun Datblygu Strategol. | Llithriant y rhaglen. | Sicrhau bod gwaith rhanbarthol yn cael ei gynnwys. Ymateb cynnar i oblygiadau lleol posibl. | Tebygolrwydd Isel<br><br>Effaith Isel |
| Cynllun yn methu'r prawf o 'gadernid'. | Llithriant y rhaglen.<br>Mae rhan o'r Cynllun yn cael ei heithrio neu ei newid. Angen gwneud gwaith ychwanegol cyn bod modd mabwysiadu'r Cynllun. Gall y Cynllun gael ei dynnu'n ôl. | Sicrhau bod gan CDLl sail dystiolaeth gadarn, yn destun ACI/AAS/ARhC priodol, gydag ymgysylltiad cymunedol a rhanddeiliaid sydd wedi'i archwilio'n dda. | Tebygolrwydd Isel |

| Mater dan Sylw | Risg(iau) Posibl | Lliniaru | Tebygolrwydd ac Effaith |
|---|---|---|---|
| | | Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y gweithdrefnau paratoi. | Effaith Uchel |
| Her Gyfreithiol. | Llithriant y rhaglen.<br>Cynllun Mabwysiedig wedi'i ddiddymu'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Gofynion gwaith/amser/ariannol ychwanegol. | Gwybodaeth dda am ofynion statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. | Tebygolrwydd Isel<br>Effaith Ganolig |

## Atodiad 4 – Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **Adneuo** | Cyfnod ffurfiol o chwe wythnos lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar y CDLlA. Yna gall Arolygydd archwilio sylwadau sy'n ymwneud ag a yw'r cynllun yn 'gadarn'. |
| **Adroddiad Adolygu** | Mae'r Adroddiad Adolygu yn rhoi trosolwg o'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r broses adolygu llawn ac yn dilyn hynny, yn nodi'r newidiadau posibl sy'n debygol o fod eu hangen o fewn unrhyw CDLlA diwygiedig ar sail dystiolaeth. Mae hefyd yn nodi'r math o weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth ddiwygio'r CDLl. |
| **Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig (AGCI)** | Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu fel rhan o'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd gweithredu CDLl, sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Gyfarwyddeb AAS. Mae Adran 62(6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl baratoi adroddiad ar ganfyddiadau Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLl. Mae'n rhan annatod o'r broses o lunio'r cynllun datblygu. |
| **Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol (AGCIC)** | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau, gan gynnwys CDLlau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae Adran 62(6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl ymgymryd ag AC o'i Gynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o arfarniad cynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn llawn. |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)** | Adroddiad blynyddol i fonitro effeithiolrwydd y CDLlA, ac yn y pen draw yn penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n asesu i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLlA yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r CDLlA yn gweithio'n effeithiol. |
| **Adroddiad Ymgynghori** | Mae Adroddiad Ymgynghori yn un o'r dogfennau y mae'n ofynnol eu cyflwyno i'w harchwilio'n annibynnol. Mae angen adroddiad ymgynghori cychwynnol hefyd ar gyfer y cam cyn adneuo. |
| **Adroddiad yr Arolygydd** | Paratowyd yr Adroddiad gan Arolygydd annibynnol sy'n archwilio'r CDLlA. Mae Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion ar gynnwys y CDLlA terfynol ac mae'n rhwymo'r Cyngor. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLlA yn y modd a gyfarwyddir gan yr Arolygydd. |
| **Amcan** | Datganiad o'r hyn a fwriedir, sy'n nodi'r cyfeiriad newid mewn tueddiadau a ddymunir. |
| **Amserlen** | Mae hyn yn nodi'r dyddiadau erbyn pryd y disgwylir i gyfnodau allweddol a phrosesau paratoi'r CDLlA gael eu cwblhau. Mae'r rhain yn derfynol ar gyfer camau hyd at adneuo'r CDLlA, ac yn ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill ar ôl hynny. |
| **Archwiliad** | Mae'r archwiliad yn cynnwys archwiliad cyhoeddus o'r CDLlA Adneuo, y cynrychiolaethau Adneuo, yr adroddiad ar ymgynghori, dogfennau sail dystiolaeth/cefndir a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. Cyflawnir hyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** | Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir at bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Cyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol Ewrop (2001/42/EC) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)** | Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn ymwneud ag asesu effeithiau cynllun (neu brosiect) yn erbyn amcanion cadwraeth natur safleoedd dynodedig Ewropeaidd ar gyfer unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol. Mae'r ARhC hefyd yn canfod a fyddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle. |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)** | Yn achos Sir Fynwy, Cyngor Sir Fynwy yw hwn (ac eithrio ardal weinyddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, lle'r awdurdod cynllunio lleol yw'r Parc Cenedlaethol). |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)** | Maent yn darparu canllawiau manylach neu safle-benodol ar gymhwyso Polisïau'r CDG. Maent yn darparu gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn CDLl. Nid yw CCA yn rhan o'r CDLlA ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol. |
| **Cwmpasu** | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder arfarniad cynaliadwyedd integredig, gan gynnwys yr effeithiau cynaliadwyedd a'r opsiynau y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys Adroddiad yr AC. |
| **Cyfrannu** | Proses yn hytrach nag un digwyddiad, sy'n rhoi cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned a rhanddeiliaid er mwyn iddynt gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. |
| **Cyflwyno** | Pan gyflwynir yr CDLlA, yr AGIC a'r ARhC yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio'n annibynnol gan Arolygydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **Cyfranogiad** | Term generig sy'n ymwneud â chynnwys y gymuned, sy'n cynnwys technegau cyfranogi ac ymgynghori. |
| **Cyngor Sir Fynwy** | Dyma enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n paratoi'r CDLlA. |
| **Cyn-adneuo** | Camau paratoi ac ymgynghori'r CDLlA cyn i'r Cynllun Adneuo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor. |
| **Cynllun Adneuo** | Mae hwn yn ddrafft llawn o'r CDLlA sy'n cael cyfnod ymgynghori ffurfiol cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio gan y cyhoedd. |
| **Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)** | Mae'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn rhan o'r Cytundeb Cyflawni. Mae'n amlinellu egwyddorion ymgysylltu ac yn rhoi manylion am sut y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid (gan gynnwys busnesau a datblygwyr) wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Cynllun defnydd tir sy'n cynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid a diogelu. Dangosir dyraniadau a pholisïau penodol yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r Cynllun. Mae'r CDLl yn gynllun datblygu statudol y mae'n ofynnol i bob ardal awdurdod cynllunio lleol ei gynhyrchu yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| **Cynllun Datblygu Strategol (CDS)** | Mae Cynllun Datblygu Strategol yn offeryn ar gyfer cynllunio rhanbarthol i ymdrin â materion trawsffiniol fel tai a thrafnidiaeth. Fe'i paratoir gan Banel Cynllunio Strategol ar draws rhanbarth. Rhaid i ACLlau roi sylw i'r CDS wrth ddatblygu eu CDLlAau. |
| **Cynllun Mabwysiedig** | Fersiwn derfynol y CDLlA. |
| **Cynrychiolaethau** | Sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r CDLlA, naill ai o blaid, neu'n gwrthwynebu. |
| **Cytundeb Cyflawni (CC)** | Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â'i Gynllun Cynnwys y Gymuned, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w cytuno. |
| **Dangosydd** | Mesur o newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cynnydd o ran cyflawni amcanion, targedau a pholisïau. |
| **Datganiadau i'r Wasg:** | Danfonwyd at gyfryngau Cymru, gan gynnwys papurau newydd, gorsafoedd newyddion radio a theledu fel y bo'n briodol. Gall cyfryngau ddewis peidio ag argraffu na darlledu eitem. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, roi cynaliadwyedd hirdymor ar flaen y gad o ran eu meddwl i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Rhaid i awdurdodau lleol weithio tuag at y saith nod llesiant a gweithredu'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn y Ddeddf. |
| **Gwaelodlin** | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal. |
| **Mabwysiadu** | Dyma'r cam olaf o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, lle mae'r CDLlA yn dod yn gynllun datblygu statudol ar gyfer yr ardal y mae'n ei gwmpasu. |
| **Meithrin Consensws** | Proses o ddeialog â'r gymuned a phartïon eraill â diddordeb er mwyn deall safbwyntiau perthnasol ac i geisio cytundeb lle y bo'n bosibl. |
| **Partneriaid** | Adrannau eraill awdurdodau lleol a chyrff statudol lle bydd y CDLlA yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r Cynllun. |
| **Polisi Cynllunio Cymru (PCC)** | Nodir canllawiau polisi cynllunio Cymru, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, yn y ddogfen hon |
| **Profion Cadernid** | Er mwyn mabwysiadu CDLlA, rhaid i'r Arolygydd Cynllunio penderfynu ei fod yn 'gadarn'. Nodir y Profion Cadernid yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020). Mae tri phrawf i lunio'r dyfarniad hwnnw mewn perthynas â'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Datblygwyd fframwaith ar gyfer asesu pa mor gadarn yw CDLlau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. |
| **Rhanddeiliaid** | Pobl y mae CDLlA (a/neu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig/Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau ac y mae eu cyfranogiad fel arfer drwy gyrff cynrychioliadol. |
| **Rheoliadau** | Nodir rheoliadau yn Offerynnau Statudol Cymru. Maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi'r CDLlA. |
| **Safleoedd Ymgeisiol** | Safle a enwebwyd gan unigolyn sydd â buddiant mewn tir (h.y. tirfeddiannwr, datblygwr, asiant neu aelod o'r cyhoedd) i'w ystyried i'w gynnwys yn y CDLl. Bydd pob Safle Ymgeisiol yn cael ei asesu ar gyfer addasrwydd i'w gynnwys fel dyraniadau posibl. |

| | |
|---|---|
| **Sail Dystiolaeth** | Gwybodaeth a data sy'n darparu'r sail ar gyfer paratoi gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion y CDLlA ac sy'n cyfiawnhau pa mor gadarn yw dull polisi'r CDLl. |
| **Strategaeth a Ffafrir** | Mae hwn yn nodi cyfeiriad strategol eang y CDLlA. Mae hyn yn cynnwys y lefel twf a ffafrir ynghyd â'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu'r twf. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth, materion ac amcanion y Cynllun. |
| **Wedi'i wneud yn briodol** | Cynrychiolaethau i'r cynllun datblygu a wnaed yn y modd cywir ac o fewn y cyfnod amser ymgynghori penodedig. |
| **Y Cyngor** | Cyngor Sir Fynwy (ac eithrio, at ddibenion cynllunio, ardal weinyddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n dod o fewn ffiniau Sir Fynwy). |
| **Y Gymuned** | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac felly'n ffurfio cymunedau o ddiddordeb. |
| **Ymgynghoriad** | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc neu ddogfen ddrafft benodol, fel arfer o fewn cyfnod penodol o amser. |
| **Ymgysylltu** | Proses ragweithiol sy'n ceisio annog cyfranogiad y gymuned a grwpiau eraill yn y broses o wneud penderfyniadau. |
| **Yr Arolygiaeth Gynllunio** | Mae cangen Cymru o'r Arolygiaeth Gynllunio yn gorff annibynnol a fydd yn gyfrifol am archwilio'r CDLlA yn ffurfiol. |